Merched y Wawr Cangen Bethel mywbethel.org

# Adroddiad Cyfarfod 11:05:23 Taith Hanesyddol

Er ei bod wedi gaddo cawodydd. fe gawsom dywydd sych i fynd o amgylch y pentref yng nghwmni Gareth Roberts Menter Fachwen, a oedd yn rhoi darlun i ni o Fethel y gorffennol. Cawsom glywed hanes y damwneiniau angeuol a gafwyd rhwng y tren a cherbydau wrth groesi'r ffordd. Wrth fynd lawr Stryd Ganol yr oeddem yn cerdded ar hyd Stryd Fawr Pentref Saron, gan ryfeddu at nifer y siopau gwahanol a fu yno.

Roedd ganddo hanes cymeriadau'r pentref a oedd yn byw yma yn ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Ond wrth ddod tuag at yr hen ysgol - cawsom hanes y terfysg a gafwyd ynglyn a'r hawl i gael addysg ac i siarad Cymraeg, pryd y difrodwyd neuadd yr hen ysgol. Yn dilyn y terfysg bu i'r ysgol orfod cau , a tynnwyd y neuadd i lawr. Cafwyd tir i adeiladu ysgol newydd - sef yr ysgol bresennol, lle mae'r Gymraeg bellach yn seinio'n falch rhwng eu muriau.

Fe ranodd Gareth hefyd gopiau o'r mapiau cerdded a darganfod newydd sydd yn dweud hanes Enwogion Plwyf Llanddeiniolen. Yn dilyn ein taith cawsom ginio blasus iawn yng Nghaffi Menter Gymunedol Bethel. Diolchodd ein Llywydd Mair Price i bawb a fu'n coginio ac yn gweini yn ddiwedd i fore hyfryd a diddorol iawn. Diolchwyd i Gareth am ei ymchwil trylwyr, am ei straeon byw a gafaelgar, ac am ein helpu ni i sylwi ar bethau y mae rhai ohonom yn eu pasio bob dydd.

Enillwyd y raffyl gan Anne Elis ac anfonwyd ein dymuniadau gorau iddi yn ei swydd fel cadeirydd y pwyllgor rhanbarth

Llongyfarchiadau i’r tîm bowlio  10  a fu’n fuddugol drwy’r rhanbarth yn ddiweddar ac i Falmai am fod wedi cael y sgôr uchaf yn y twrnament.







Anfonwyd  ein  cydymdeimlad at Eirlys Sharpe yn ei phrofediagaeth o  golli ei gŵr Brian yn ddiweddar.

Ar gyfer ein cyfarfod Pentymor byddwn yn cael taith ar y  Fenai ar y Queen of the Sea,  gan gychwyn o’r Cei yn Nghaernarfon  ar y 14eg Mehefin am 6:30 pm. Yr ydym yn rhoi gwahoddiad agored i aelodau a chyfeillion i ymuno efo ni,  gan ddod a phicinic efo  nhw. Y mae’r tocynnau ar gael gan Gwenan Roberts ac Eirlys Williams